Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Bwrdd Hybu Cig Cymru

Penodi Dau Aelod Anweithredol o'r Bwrdd - Cymraeg yn Ddymunol

Dyddiad cau: i'w gadarnhau



Cynnwys **Tudalen**

Gwneud Cais **5**

Atodiad A: Disgrifiad o'r Rôl a Manyleb y Person **9**

Atodiad B: Rolau a chyfrifoldebau Hybu Cig Cymru **12**

Atodiad C: Y broses ddethol **14**

Neges gan Huw Irranca-Davies AS, Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Senedd Cymru

Diolch am fynegi diddordeb mewn bod yn Aelod Anweithredol o Fwrdd Hybu Cig Cymru (HCC). Mae'r gwaith a wneir gan HCC yn hanfodol i dalwyr ardoll a Llywodraeth Cymru, gan gefnogi ein huchelgais ar y cyd ar gyfer diwydiant sy'n broffidiol, yn gynaliadwy, yn arloesol ac yn gystadleuol, tra hefyd o fudd i'r economi wledig ehangach.

Ein gweledigaeth yw sicrhau dyfodol ffyniannus i ffermio Cymru, gan ganolbwyntio ar gynhyrchu bwyd cynaliadwy, stiwardiaeth amgylcheddol a chymunedau gwledig cryf.

Mae cynhyrchu bwyd yn gonglfaen i'n heconomi, ac mae Cymru mewn sefyllfa unigryw i gynhyrchu cig coch cynaliadwy o ansawdd uchel diolch i'w hinsawdd ffafriol.

Rydym yn ymroddedig i feithrin sector amaethyddol bywiog a llwyddiannus a chadwyn gyflenwi bwyd, sy'n sail i'r economi wledig. Yn ganolog i hyn mae cynnal safonau uchel o iechyd a lles anifeiliaid, gwella perfformiad amgylcheddol, mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, a hyrwyddo bioamrywiaeth ar ffermydd.

Mae rôl penodiadau cyhoeddus yn hanfodol wrth ysgogi gwelliant parhaus o fewn y Bwrdd, gan sicrhau tîm sy'n angerddol am amaethyddiaeth ac wedi ymrwymo i hyrwyddo, datblygu a marchnata cig coch Cymreig.

Hybu Cig Cymru/Meat Promotion Wales

Neges gan Catherine Smith, Cadeirydd Hybu Cig Cymru

Diolch am eich diddordeb mewn bod yn aelod o Hybu Cig Cymru.

Mae ein sefydliad wedi ymrwymo i hyrwyddo, datblygu a marchnata cig coch Cymru ac mae cyfraniadau aelodau ein Bwrdd yn hanfodol i'n llwyddiant.

Fel aelod o'r Bwrdd, cewch gyfle i ddylanwadu ar gyfeiriad strategol Hybu Cig Cymru, gan sicrhau ein bod yn parhau i gefnogi'r diwydiant yn effeithiol ac yn gynaliadwy. Rydym yn chwilio am unigolion sy'n angerddol am y sector amaethyddol a'r gadwyn gyflenwi cig coch yng Nghymru, sydd â sgiliau arwain cryf, ac sy'n barod i roi o'u hamser a chynnig eu harbenigedd i'n Gweledigaeth.

'Rôl HCC yn y diwydiant cig coch yng Nghymru fydd darparu arweinyddiaeth awdurdodol wybodus i ddatblygu'r diwydiant drwy alluogi a hyrwyddo cynhyrchiant gwell, mwy o gystadleurwydd, datblygu masnach a marchnata'r cynnyrch.'

Mae hwn yn amser cyffrous i ymuno â Bwrdd HCC wrth i'r sefydliad ddechrau cyflwyno cynllun busnes newydd yn seiliedig ar ei strategaeth Gweledigaeth 2030 ddiweddaraf. Os oes gennych ddiddordeb yn y rôl hon, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â ni. Rydym yn edrych ymlaen at y posibilrwydd o weithio gyda chi ac elwa ar eich cyfraniadau gwerthfawr.

Diolch am fynegi diddordeb ym mhenodi Aelodau o Fwrdd Hybu Cig Cymru (HCC).

GWNEUD CAIS

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad
Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd fel arfer yn Aberystwyth gyda chyfarfodydd y diwydiant, sesiynau briffio, digwyddiadau a sioeau yn cael eu cynnal ledled Cymru, y DU ac o bosibl ledled y byd.

Fodd bynnag, gallai rhai cyfarfodydd hybrid/rhithiol gael eu cynnal pan fo angen.

Taliad Cydnabyddiaeth
Telir £310 y dydd i Aelod o Fwrdd HCC.

Mae modd hawlio costau teithio a threuliau rhesymol eraill a allai godi wrth wneud gwaith HCC gan HCC o fewn y terfynau cydnabyddedig. Mae'n bosibl hefyd y byddwch yn gymwys i gael ad-daliad costau gofal plant/gofalu am berson hŷn/gofalwr cynorthwyol, wrth wneud gwaith ar ran HCC.

Ymrwymiad amser
Rhagwelir y bydd y swydd yn galw am ymrwymiad o hyd at **12 diwrnod y flwyddyn** i fynd i gyfarfodydd y Bwrdd (a gynhelir yn Aberystwyth fel arfer) a chyfarfodydd, sesiynau briffio, digwyddiadau a sioeau'r diwydiant (ledled Cymru, y DU ac yn fyd-eang).

Hyd y penodiad
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig sy'n pennu hyd y penodiad, a fydd am hyd at dair blynedd ar y mwyaf, a byddwn am i'r ymgeisydd llwyddiannus i ymgymryd â'r swydd ym mis Ebrill 2026.

Mae'r Atodiadau yn rhoi manylion rôl Aelodau o'r Bwrdd a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau HCC a'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i dudalen swyddi gwag Llywodraeth Cymru.
https://cais.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-4/brand-7/xf-3429277df081/candidate/jobboard/vacancy/6/adv/

I wneud cais am y swydd hon, cliciwch ar y swydd wag ac yna cliciwch ar y botwm 'Gwneud cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith.

Y tro cyntaf y gwnewch chi gais am swydd, bydd angen ichi gofrestru ar system ymgeisio ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y bydd angen ichi gofrestru. Gallwch wedyn gadw golwg ar hynt eich cais presennol, ac unrhyw geisiadau yn y dyfodol, drwy'ch cyfrif cofrestredig ar-lein.

Ar ôl cofrestru, bydd modd ichi weld y ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV gyda'ch ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol

Y datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut rydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir ym manyleb y person. Eich dewis chi yw sut i gyflwyno'r wybodaeth. Serch hynny, dylech geisio darparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut mae'ch gwybodaeth a'ch profiad yn bodloni pob maen prawf, a'ch rôl chi wrth gyflawni canlyniad penodol.

Mae rhai ymgeiswyr yn teimlo bod defnyddio'r dull **STAR** yn ddefnyddiol wrth gyflwyno tystiolaeth gan ei fod yn rhoi strwythur a phwyslais i enghreifftiau, ar y ffurflen gais ac yn y cyfweliad.

- **Sefyllfa:** rhowch ddisgrifiad byr o'r cyd-destun a'ch rôl chi
- **Tasg:** yr her, y dasg neu'r gwaith penodol oedd o'ch blaen
- **Y cam gweithredu:** yr hyn a wnaethoch, sut y gwnaethoch chi hynny a pham
- **Y canlyniad** – y canlyniadau a'r hyn a gyflawnoch drwy eich gweithredoedd

Ni ddylai eich datganiad personol fod yn fwy na dwy dudalen. Gallai eich cais gael ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn.

CV

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion cryno eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd honno. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Amserlen fras

Dyddiad cau:	**23 Ionawr 2026**
Llunio rhestr fer:	**Chwefror 2026**
Cyfweliadau:	**Chwefror 2026**
Penodi:	**Ebrill 2026**

Sylwer, ni fydd ffurflenni cais a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried oni bai bod cais am addasiad rhesymol wedi'i wneud o dan y Cynllun Hyderus o ran Anabledd.

Datganiad am Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod gwerth cyrff cyhoeddus sy'n adlewyrchu amrywiaeth eang o ddiwylliannau, hunaniaethau a chefndiroedd. Rydym yn annog ceisiadau o bob rhan o'r gymdeithas, ac rydym am benodi o'r gronfa o dalent ehangach a mwyaf amrywiol posibl.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan bawb heb ystyried oedran, statws priodasol (gan gynnwys priodas rhwng pobl o'r un rhyw) a phartneriaeth sifil, cyfeiriadedd rhywiol, rhyw, hunaniaeth rhywedd, amhariad neu gyflwr iechyd, hil, crefydd neu gred, na beichiogrwydd.

Rydym wedi ymrwymo i recriwtio menywod, pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, pobl anabl ac aelodau o'r gymuned LHDTC+, sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn swyddi ar fyrddau cyrff cyhoeddus ar hyn o bryd.

Hyderus o ran Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gallu anablu pobl sydd ag amhariad neu gyflwr iechyd, neu sy'n defnyddio laith Arwyddion Prydain.

Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod staff berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd, sef “amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd”.

Rydym yn gwarantu cyfweliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni’r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni’r ‘meini prawf sylfaenol’ yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni’r lefel cymhwysedd ar gyfer y swydd a’ch bod yn meddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai ‘hanfodol’.

Rydym wedi ymrwymo i gyflogi ac i ddatblygu gyrfaoedd pobl anabl. Os hoffech gael gwarant o gyfweliad, cysylltwch â'r tîm Penodiadau Cyhoeddus drwy e-bostio PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru.

Os oes gennych amhariad neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio laith Arwyddion Prydain, ac yn dymuno trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio, cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus dros e-bost ar PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru cyn gynted â phosibl i drafod eich gofynion ac unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Cysylltiadau

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, dyma'r manylion cyswllt
Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus
E-bost: publicappointments@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am rôl Hybu Cig Cymru a rôl Aelodau'r Bwrdd, cysylltwch â:

Maria Richards, Pennaeth Is-adran Polisi Ffermio'r Dyfodol
Llywodraeth Cymru
E-bost: Maria.Richards@llyw.cymru

Hybu Cig Cymru/Meat Promotion Wales

Catherine Smith
Cadeirydd Hybu Cig Cymru
E-bost: hccchair@hybucig.cymru

Os hoffech ragor o help i ymgeisio am y rôl hon, cysylltwch â PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus

Atodiad A

Disgrifiad o Rôl Aelod o Fwrdd HCC a Manyleb y Person

Rôl a chyfrifoldebau

Rôl y Bwrdd yw goruchwylio'r weithrediaeth a darparu arweinyddiaeth effeithiol, diffinio a datblygu cyfeiriad strategol a phennu amcanion heriol, hyrwyddo safonau uchel o ran cyllid cyhoeddus, a chynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian.

Prif gyfrifoldebau Aelodau'r Bwrdd fydd:

- Cefnogi'r gwaith o gyflawni 'Gweledigaeth 2030' ar gyfer HCC a gwblhawyd yn ddiweddar – y tair blaenoriaeth yw:

    1. Cynyddu swm a gwerth y cig coch Cymreig wedi'i frandio a werthir;
    2. Datblygu ac arwain y gwaith o weithredu mentrau sy'n gwella cynaliadwyedd economaidd ac amgylcheddol y diwydiant cig coch yng Nghymru;
    3. Eiriolaeth rhagweithiol, gadarn a seiliedig ar dystiolaeth o'r diwydiant.

- Hyrwyddo rôl HCC fel arweinydd ar draws y sector cig coch.

- Cynrychioli HCC yn nigwyddiadau'r diwydiant a rhanddeiliaid a chyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru.

- Cyfrannu at ddatblygu Cynllun Busnes HCC 2026-2030 a Chynllun Gweithredol HCC drwy'r Bwrdd.

- Sicrhau bod systemau ar waith i fonitro effeithiolrwydd HCC a bod gan holl Aelodau'r Bwrdd wybodaeth gywir, amserol a chlir ar berfformiad y cwmni.

- Cynnal trefniadau llywodraethiant corfforaethol cadarn a sicrhau bod ei holl weithgareddau'n cael eu cyflawni gydag uniondeb a phriodoldeb.

- Gweithredu fel Llysgenhadon i'r sefydliad a chwarae rôl allweddol wrth hyrwyddo barn HCC i'r cyhoedd yn gyffredinol.

Manyleb y Person

I gael eich ystyried, mae'n **rhaid** ichi ddangos bod gennych y cymwyseddau i fodloni'r **holl feini prawf** hanfodol ar gyfer y penodiad:

Meini Prawf Hanfodol

YMWYBYDDIAETH A DEALLTWRIAETH O'R SECTOR Mae dealltwriaeth fanwl o'r sector amaethyddiaeth, yn enwedig yng nghyd-destun y gadwyn gyflenwi cig coch ehangach, yn hanfodol. Mae hyn yn cynnwys profiad gyda'r heriau a'r cyfleoedd unigryw sy'n wynebu'r diwydiant, yn ogystal â gwerthfawrogiad o sut mae gwahanol elfennau o'r gadwyn gyflenwi yn rhyngweithio ac yn cyfrannu at berfformiad cyffredinol y sector.
CYFRIFOLDEB A DEALLTWRIAETH Y BWRDD Sicrhau bod y Bwrdd yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol, gan gadw at fframweithiau ac arferion gorau sefydledig. Mae hyn yn cynnwys goruchwyliaeth gadarn o bolisïau a gweithdrefnau'r Bwrdd, meithrin diwylliant lle mae tryloywder ac atebolrwydd yn cael eu blaenoriaethu, a sicrhau bod holl weithgareddau'r Bwrdd yn cael eu cynnal yn unol â safonau rheoleiddiol a moesegol. Yn ogystal, mae gallu i gydweithio'n effeithiol o fewn timau ac i weithio tuag at amcanion a rennir yn hanfodol i lwyddiant y Bwrdd.
LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL GAN GYNNWYS CYLLID Mae angen gwybodaeth gynhwysfawr o egwyddorion llywodraethu corfforaethol a rheolaeth ariannol. Mae hyn yn cynnwys y gallu i ddadansoddi ac asesu adroddiadau corfforaethol, datganiadau ariannol, canfyddiadau archwilio, ac adroddiadau tâl yn feirniadol, gan sicrhau bod y Bwrdd yn cynnal ei gyfrifoldebau ac yn cynnal safonau llywodraethu uchel.

Profiad a Gwybodaeth: Meini Prawf Arbenigol

Er mwyn sicrhau trawstoriad o sgiliau ar Fwrdd HCC, bydd Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu penodiadau i ymgeiswyr sydd â'r sgiliau/profiad penodol canlynol ar lefel uwch:

- Gwybodaeth a phrofiad o'r Gadwyn Gyflenwi Cig Coch
- Gwybodaeth a phrofiad o egwyddorion Rheoli Tir Cynaliadwy
- Gwybodaeth am farchnata brand a chyfathrebu

Yn ogystal â'r sgiliau arbenigol, byddai'n **ddymunol** bod gan Aelodau'r Bwrdd y sgiliau canlynol:

- Y gallu i herio mewn ffordd adeiladol
- Prawf o lwyddiant blaenorol mewn meithrin cysylltiadau ag amrywiaeth o randdeiliaid
- Yn meddu ar alluoedd cyfathrebu cryf, yn fedrus i gyfleu gwybodaeth gymhleth gydag eglurder a chywirdeb manwl tra'n parchu safbwyntiau gwahanol yn gyson.

Gofynion Sgiliau yn y Gymraeg

Ar gyfer y ddwy swydd hon fel Aelod o'r Bwrdd, mae sgiliau Cymraeg yn **ddymunol.** Rhaid i ymgeiswyr ar gyfer y swyddi hyn feddu ar y hyfedredd angenrheidiol yn y Gymraeg i gyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol.

Sgiliau iaith Gymraeg: **dymunol**

Deall: Yn gallu deall sgyrsiau syml am bynciau bob dydd
Darllen: Yn gallu darllen rhai geiriau ac ymadroddion sylfaenol, a'u deall
Siarad: Yn gallu cynnal sgyrsiau syml sy'n ymwneud â gwaith
Ysgrifennu: Yn gallu ysgrifennu negeseuon syml am bynciau bob dydd

Cymhwysedd

Dylai ymgeiswyr nodi hefyd y bydd bod yn aelod o Hybu Cig Cymru yn golygu na fyddant yn gymwys i fod yn Aelod o Senedd Cymru o dan Orchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020.

Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020 (legislation.gov.uk).

Gwrthdaro Buddiannau

Wrth wneud cais, bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel aelod o fwrdd Hybu Cig Cymru, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'r rôl gyda Hybu Cig Cymru.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweliad. Os byddwch yn cael eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Diwydrwydd Dyladwy

Bydd Tîm Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn cynnal archwiliadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd a fydd yn cael ei wahodd i gyfweliad. Bydd hynny'n cynnwys, ymhlith pethau eraill, chwiliadau ar y cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngrwyd. O ganlyniad, gallem ofyn cwestiynau ichi yn y cyfweliad am ffrwyth y gwiriadau diwydrwydd dyladwy hyn.

Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus

Bydd disgwyl ichi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus.

2025-10-30 Cod Llywodraethu ar Benodiadau Cyhoeddus - Hydref 2025

Hybu Cig Cymru/Meat Promotion Wales

Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus

Atodiad B

Rôl a Chyfrifoldebau Hybu Cig Cymru (HCC)

Cenhadaeth a chylch gwaith y sefydliad

Hybu Cig Cymru (HCC), wedi'i leoli yn Aberystwyth, yw'r sefydliad o dan arweiniad y diwydiant sy'n gyfrifol am ddatblygu, hyrwyddo a marchnata cig coch o Gymru. Fe'i sefydlwyd yn 2003 ac fe'i sefydlwyd fel corff y mae Gweinidogion Cymru yn berchen arno yn ei gyfanrwydd yn 2007. Ei genhadaeth yw cefnogi'r gwaith o ddatblygu diwydiant proffidiol, effeithlon, cynaliadwy, arloesol a chystadleuol, sy'n gallu gwrthsefyll newidiadau gwleidyddol ac amgylcheddol ac sydd o fudd i bobl Cymru.

I gefnogi ein Talwyr Ardoll (cynhyrchwyr a phroseswyr) mae HCC yn cydweithio â phob sector o'r diwydiant cig coch, o ffermwyr i fanwerthwyr, ac yn gweithio i adeiladu'r diwydiant a datblygu marchnadoedd proffidiol ar gyfer Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig (PGI) Cig Oen Cymru, PGI Cig Eidion Cymru a Phorc o Gymru. Rydym yn sicrhau bod ein staff, sy'n arbenigwyr yn y diwydiant, yn cyflwyno mewnwelediad ac yn cydweithio mewn tîm i sicrhau'r canlyniadau gorau i'r sector cig coch yng Nghymru.

Yn y DU ac mewn llawer o farchnadoedd pwysig ledled y byd, mae HCC yn gweithio gyda manwerthwyr, proseswyr a gweithredwyr gwasanaethau bwyd i gryfhau cyfleoedd busnes ac yn ymgymryd â rhaglenni hyrwyddo rheolaidd ar gyfer Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig (PGI) Cig Oen Cymru a PGI Cig Eidion Cymru. Ar draws y gadwyn gyflenwi gyfan, mae HCC yn ymgymryd â gwaith ymchwil a datblygu, yn rhannu gwybodaeth ac yn cefnogi hyfforddiant, i sicrhau bod diwydiant cig coch Cymru mewn sefyllfa i wella ansawdd, cynyddu cost-effeithiolrwydd ac ychwanegu gwerth at gynhyrchion cig coch Cymru. Gwneir hyn gan sicrhau bod cyflawniadau unigryw Cymru o ran cynaliadwyedd yn cael eu cynnal a, lle bo hynny'n bosibl, eu gwella.

Yn 2024 roedd allbwn amaethyddol cyfanredol Cymru yn werth ychydig dros £2.21 biliwn. Amcangyfrifir bod allbwn gros o wartheg a defaid yn 40% o werth yr allbwn amaethyddol yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o'r cig coch sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru yn cael ei fwyta yn y DU; ond mae cyfran sylweddol yn gwasanaethu marchnad allforio sy'n tyfu. Yn 2024, roedd allforion cig coch Cymru yn werth £277.4 miliwn.

Daw'r rhan fwyaf o gyllid HCC o Ardoll Cig Coch Cymru, cyfraniad cydweithredol gan gynhyrchwyr a chigyddwyr/allforwyr, a gymhwysir i'r holl wartheg, defaid a moch a gaiff eu lladd yng Nghymru neu a gaiff eu hallforio yn fyw. Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/2026, mae HCC wedi gosod incwm cyllidebol uchelgeisiol o £4.2 miliwn.

EIDCymru

Hybu Cig Cymru/Meat Promotion Wales

Mae is-gwmni HCC, EID Cymru, yn rheoli system electronig ar gyfer adnabod defaid ar ran Llywodraeth Cymru sy'n monitro ac yn olrhain cofnodion o holl symudiadau defaid Cymru. Bydd y system yn cael ei hehangu'n fuan i gynnwys yr holl symudiadau rheoleiddiol buchol, gan ymestyn cronfa ddata EID Cymru a darparu cyfle data mawr ar gyfer mewnwelediadau a gwybodaeth i gynhyrchwyr cynradd amlrywogaeth a'r diwydiant.

Cewch wybod mwy am HCC drwy edrych ar www.meatpromotion.wales

Atodiad C

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i bennu pwy sy'n bodloni meini prawf y rôl orau, a phwy fydd yn cael gwahoddiad i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn eich CV a'ch datganiad personol i asesu a oes gennych y sgiliau a'r profiad angenrheidiol.

Dylech wneud yn siŵr eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol.

Bydd y panel dethol yn cael ei gadeirio gan Maria Richards, Pennaeth Polisi Ffermio'r Dyfodol, Llywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth Catherine Smith, Cadeirydd HCC (Cynrychiolydd y Corff) a xx (Aelod Annibynnol)

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel dethol i'w ystyried. Mewn sefyllfa o'r fath, dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan bob aelod o'r panel.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod mis Chwefror 2026 pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad ym mis Chwefror 2026. Ein bwriad yw cynnal cyfweliadau wyneb yn wyneb yn Llandrindod.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf y mae'r panel yn credu sydd wedi dangos eu bod yn bodloni y meini prawf a nodwyd ym manyleb y person orau fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Fodd bynnag, os ydych wedi gwneud cais o dan y cynllun gwarantu cyfweliad a'ch bod yn bodloni **meini prawf hanfodol** y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac os nad yw dyddiad y cyfweliad wedi'i nodi eisoes yn y pecyn gwybodaeth hwn, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi o ddyddiad y cyfweliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad hwnnw, fe wnawn ymdrechu i aildrefnu, ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu argaeledd y panel dethol.

Fe gewch e-bost gan ganolfan ymgeisio Llywodraeth Cymru i roi gwybod ichi os ydych wedi eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn **bodloni meini prawf** y swydd.

Bydd yr ymgeiswyr sy'n addas i'w penodi ym marn y panel yn cael eu hargymell i'r Gweinidog, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cwrdd â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd

enwebedig. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a fydd wedi'u cyfweld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt y broses.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi'n Aelod o Fwrdd Hybu Cig Cymru, a bydd y llythyr hwnnw hefyd yn cadarnhau ar ba delerau y caiff y penodiad ei gynnig ichi.

Ymholiadau

Os oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru.

Os na fyddwch yn gyfan gwbl fodlon

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych gŵyn am y ffordd y deliwyd â'ch cais, anfonwch e-bost at penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

Yn ogystal, gallwch ysgrifennu at:

Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus: **Office of the Commissioner for Public Appointments,** Ground Floor, 1 Horse Guards Road, London, SW1A 2HQ, neu e-bostio publicappointments@csc.gov.uk